



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	21 Chwefror 2018
TEITL	Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad 3ydd Chwarter
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2017/18.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Adroddwyd yn yr adolygiad 2il chwarter amcangyfrif gorwariant net o £14,761 yn erbyn y gyllideb, gyda'r prif reswm yn ymwneud gyda'r adleoli swyddfa ardal Fflint/Wrecsam.
- 1.2 Erbyn hyn disgwylir tanwariant net o (£40,345), gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:** **Chwarter 3: tanwariant (£46,618). (Chwarter 2: tanwariant (£7,263)).**

Adroddwyd yn Chwarter 2 bod trosiant staff a'r cyfnod pryd roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn swydd dros dro a rhan amser (Ebrill a Mai 2017) wedi arwain at danwariant un tro.

Erbyn hyn, mae trosiant staff pellach, gan gynnwys effaith ailstrwythuro Medi 2017, wedi cynyddu'r tanwariant.

2.2 **Gweithwyr - Arweinwyr Craidd, Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant:** **Chwarter 3: tanwariant (£17,971). (Chwarter 2: dim gôr na than wariant).**

Disgwylir tanwariant ar y pennawd oherwydd trosiant staff gan gynnwys effaith ailstrwythuro Medi 2017.

2.3 **Adeilad - Rhent:** **Chwarter 3: gorwariant £29,750. (Chwarter 2: gorwariant £29,750).**

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2, sef gorwariant gan fod y GwE wedi adleoli ei swyddfa ardal Fflint/Wreccsam o'r 1af o Fedi, gyda'r gost flynyddol yn uwch na chost y swyddfa flaenorol (effaith 7 mis am eleni sydd wedi ei gynnwys uchod). Mae angen adnabod dull ariannu parhaol ar gyfer y cynnydd cost blwyddyn gyfan.

2.4 **Cludiant – Costau Teithio:** **Chwarter 3: tanwariant (£5,506). (Chwarter 2: tanwariant (£7,727)).**

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2017/18 oedd (£738,572).

3.2 Mae cynllun busnes y GwE yn cynnwys defnyddio £399,750 yn ystod 2017/18.

Blaenoriaeth Cynllun Busnes	
Safonau	£140,500
Cwricwlwm ac Aseu	£62,500
Arweinyddiaeth	£102,750
Lles	£13,000
Addysgu	£36,000
Adleoli swyddfa	£45,000

3.3 Amcangyfrif cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2017/18 yw £379,167, wedi ystyried y tanwariant a rhagwelir (gweler 1.2) llai'r defnydd (gweler 3.2) yn ystod y flwyddyn.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad 3ydd Chwarter 2017/18.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.